


Dinas a Sir Abertawe

Strategaeth 5 mlynedd ar gyfer y Gymraeg

Mae'r strategaeth yn cwmpasu dau brif faes gweithredu - **y gymuned** a'r **awdurdod**.

- Mae'r **gymuned** yn cyfeirio at dasgau a mentrau y gall y cyngor eu defnyddio (ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth) i nodi a meithrin gweithgareddau ac adnoddau cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r cyngor â'r nod o o leiaf gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.
- Bydd tasgau cychwynnol yn nodi'r waelodlin y byddwn yn mesur cynnydd yn ei erbyn.
- Bydd tasgau parhaus yn datblygu, yn cefnogi ac yn monitro mentrau yn y maes hwn.
- Mae'r **awdurdod** yn cyfeirio at gamau gweithredu o fewn y cyngor yn benodol.
- Mae tasgau rheoleiddiol yn ymdrin â'r Safonau a sut y cânt eu dehongli a'u gorfodi.
- Mae tasgau cefnogol yn rheoli'r isadeiledd i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol - gallai rhai o'r adnoddau hyn fod o ddefnydd yn y gymuned hefyd.
- Llunnir adroddiad blynyddol a fydd yn cwmpasu'r ddau faes uchod ac yn cynnwys gwybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y safonau.

Disgrifir tasgau (gydag amserlenni cychwynnol arfaethedig) ar ôl y diagramau llif ar gyfer y gymuned a'r awdurdod.
Bydd gweithgareddau'n amrywio yn ystod y strategaeth yn unol â phrofiad a chanlyniadau monitro.



Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gymuned

1 Pennu
Ffigurau
Gwaelodlin

Mae gofyniad i gynnal neu gynyddu nifer neu ganran y siaradwyr Cymraeg dros gyfnod o bum mlynedd.
Bydd y gweithgaredd hwn yn darparu'r ffigurau gwaelodlin i alluogi'r gymhariaeth.

Bydd y ffigurau'n deillio o ffynonellau swyddogol presennol, e.e. y Cyfrifiad, StatsCymru

I'w roi ar waith ym mis Hydref 2016.

2 Gwerthuso
Demograffig
Lleol

Caiff y ffigurau gwaelodlin eu mireinio (fel lleiafswm) i ffigurau perthnasol ar gyfer pob ward etholiadol. Lle mae wardiau'n cwmpasu ardal ddaearyddol eithaf mawr, mae'n bosib y bydd rhaid rhannu hyn ymhellach.

I'w wneud fel rhan o'r dasg uchod.

3 Nodi
Adnoddau
Cymunedol

Bydd y gweithgaredd hwn yn pennu lefel bresennol yr adnoddau cymunedol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Cesglir yr wybodaeth gan sefydliadau Cymraeg presennol yn ogystal â chan eu haelodau a fydd yn gallu nodi clybiau, grwpiau, busnesau ac eraill lle y cyfathrebir drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf neu, ar gyfer busnesau, lle mae'r Gymraeg ar gael neu'n cael ei siarad y rhan fwyaf o'r amser.

Ar waith o fis Hydref 2016 tan fis Ionawr 2017.

4 Mapio
Adnoddau i
Ardaloedd

Caiff yr adnoddau a nodir uchod eu mapio'n ddaearyddol fel y gellir mesur argaeledd lleol gwasanaethau.

Parhaus - i ddechrau o fis Hydref 2016 tan fis Ionawr 2017.

5 Nodi
Mannau
Cryf/Diffygion

Bydd yr ymarfer uchod yn nodi'r ardaloedd hynny lle mae adnoddau cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o fod ar gael, yn ogystal ag ardaloedd eraill lle mae adnoddau'n brin.

Parhaus - gan ddechrau ym mis Ionawr 2017.

6 Datblygu
Camau
Gweithredu
Cefnogol

Yn unol â'r wybodaeth a gesglir uchod, a thrafodaethau gyda siaradwyr Cymraeg lleol, dysgwyr Cymraeg a phartion eraill â diddordeb (ysgolion cyfrwng Cymraeg, CRhA etc.) nodi camau gweithredu addas i'w rhoi ar waith i annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

Parhaus - gan ddechrau ym mis Ionawr 2017.

7 Monitro
Adnoddau
sydd ar gael

Bydd hwn yn weithgaredd parhaus a fydd yn derbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg newydd, diwygiedig neu rai a gollwyd yn y gymuned.

Bob blwyddyn, cysylltir â phob adnodd a fydd wedi'i gofnodi ar y pryd a bydd yn rhaid cael ymateb cadarnhaol gan bob un er mwyn iddo barhau yn y cyfeiriadur.

Parhaus o fis Ionawr 2017 - yn ogystal â diweddariad blynyddol.

8 Diweddaru'r
Waelodlin

Diweddaru gwybodaeth ddemograffig gydag unrhyw adnoddau newydd sydd ar gael. Aiddosbarthu'r data wedi'i fapio. Bwydo unrhyw newidiadau i adroddiad blynyddol.

Bob blwyddyn o fis Mawrth 2018.


9 Adrodd ar
Gynnydd

Bydd fersiwn gychwynnol yr adroddiad hwn yn darparu'r ffigurau gwaelodlin y gellir mesur cynnydd yn y dyfodol yn eu herbyn.

Bydd fersiynau yn y dyfodol yn dangos ffigurau wedi'u diweddaru (pan fyddant ar gael) gan fanylu ar newidiadau ac amlygu tueddiadau.

Bydd yr adroddiad hefyd yn disgrifio mentrau cymunedol a rhai gan y cyngor - rhai presennol a rhagamcanol - ac yn disgrifio'r adnoddau cyfrwng Cymraeg amrywiol a nodir yn y gymuned. Bydd ffigurau blynyddol gan yr awdurdod, fel sy'n ofynnol yn ôl y safonau, yn cael eu cynnwys.

Bob blwyddyn o fis Mawrth 2017.



Hyrwyddo'r Gymraeg yn yr Awdurdod

A
Cyd-drafod
â'r
Comisiynydd

Ymateb i gyfathrebiadau o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
Trosglwyddo cwestiynau ac ymholiadau ynghylch dehongli'r safonau
i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a rhaeadru ymatebion.
Adrodd fel sy'n ofynnol yn ôl y safonau a ddiffiniwyd.

Ad hoc - parhaus.

B
Dehongli
safonau

Ateb cwestiynau gan adrannau mewn perthynas â'r safonau a'u
dehongli. Cyd-drafod gydag awdurdodau a chyrff cyhoeddus eraill er
mwyn dangos undod lle y bo'n bosib.

Ad hoc - parhaus.

C
Cynghori ar y
safonau

Llunio a dosbarthu dogfennau perthnasol (canllawiau defnyddiol,
etc.) Cyd-drafod gyda Hyrwyddwyr y Gymraeg i rannu gwybodaeth
ac arfer da.

Annog a hwyluso cydymffurfio.

Ch
Gorfodi'r
safonau

Hyrwyddo materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'u cynnwys yng
nghamau cynharaf unrhyw fenter. Rhagdybio problemau gyda
chydymffurfio. Cyfeirio meysydd cwynion, problemau a sylwadau a
allai fod yn berthnasol iddynt. Arfarnu rheolwyr a phobl berthnasol
eraill o ddatblygiadau allanol.

D
Nodi Sgiliau
Presennol

Mae angen (ail-)holi aelodau staff i asesu eu sgiliau Cymraeg. Bydd rhaid i feysydd gweithredu fesur lefelau sgiliau a gallu eu tîm i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg.

Ad hoc – parhaus.

Dd
Datblygu
Deunyddiau
Cefnogi

Canllawiau Defnyddiol; Cyfieithiadau safonol; Arfer da; Dosbarthiadau Cymraeg

Unrhyw beth a geisir gan aelodau staff neu Hyrwyddwyr y Gymraeg, neu a nodir drwy brofiad ymarferol neu gan y Comisiynydd.

Ad hoc – parhaus.

G
Cefnogi
Sgiliau

Cyflwyniadau ar safonau a sut maent yn gweithio; Sesiynau sefydlu a chyrsiau DPP; Ymweliadau/sgyrsiau ag adrannau; Sesiynau 'sgwrsio' a chyngor galw heibio yn ystod amser cinio.

Ad hoc – parhaus

H
Datblygu
Sgiliau

Hyrwyddo'r iaith yn fewnol (StaffNet a manau eraill). Hyrwyddo dosbarthiadau Cymraeg. Datblygu rhestr fewnol o dermau. Cefnogi dulliau gwaith sy'n cydymffurfio â'r safonau. Hwyluso cydweithrediad rhwng adrannau ac ar draws diwylliannau.

Ad hoc – parhaus.

9
Adrodd
Blynyddol

Wedi'i gynnwys fel rhan o 'adroddiad y gymuned' ar gynnydd (uchod)
Bob blwyddyn o fis Mawrth 2017.